

ATODIAD 1

ENGHRAIFFT O GYTUNDEB CONSORTIWM SYLFAENOL

CYTUNDEB CONSORTIWM [NODWCH ENW'R PROSIECT]

Gwneir y CYTUNDEB HWN ar y dydd o 2007

RHWNG: [NODWCH ENW PARTI A], sydd â'i swyddfa gofrestredig wedi ei lleoli yn [nodwch y cyfeiriad].

A [NODWCH ENW PARTI B], sydd â'i swyddfa gofrestredig wedi ei lleoli yn [nodwch y cyfeiriad].

A [NODWCH ENW PARTI C], sydd â'i swyddfa gofrestredig wedi ei lleoli yn [nodwch y cyfeiriad].

A [NODWCH ENW PARTI D], sydd â'i swyddfa gofrestredig wedi ei lleoli yn [nodwch y cyfeiriad].

(cyfeirir atynt o hyn allan yn unigol fel "Parti" a chyda'i gilydd fel "y Partïon")

ERTHYGLAU

YN GYMAINT Â mae'r Partïon yn dymuno cydweithredu o ran [nodwch y manylion];

AC YN GYMAINT Â mae'r Cytundeb Consortiwm hwn yn amlinellu'r berthynas rhwng y Partïon a threfniadaeth y gwaith.

CYTUNIR DRWY HYN FEL A GANLYN:-

1. DIFFINIADAU

1.1 Yn y Cytundeb hwn, bydd y termau a ganlyn yn golygu'r ystyron a nodir isod:

"HED Cefndir"	yn golygu pob patent, dyluniad, hawlfraint (yn cynnwys hawlfraint mewn meddalwedd), hawliau cronfa ddata, ac unrhyw hawliau eiddo deallusol eraill ac eithrio HED yn y Tu Blaen ym mherchnogaeth unrhyw un o'r Partïon, yn y maes ac sydd yn angenrheidiol ar gyfer elwa o HED yn y Tu Blaen yn unol â'r Cytundeb hwn.
"Diwrnod Busnes"	yn golygu unrhyw ddiwrnod heblaw dydd Sadwrn neu ddydd Sul neu ŵyl y banc neu wyliau cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.
"Gwybodaeth Gyfrinachol"	yn golygu'r holl wybodaeth a nodir fel Cyfrinachol a'r hyn a gaiff ei ddatgelu gan un Parti wrth y gweddill er dibenion cynnal y Prosiect, yn cynnwys, heb ragfarnu yn erbyn cyffredinolrwydd yr hyn a ganlyn, unrhyw syniadau; cynlluniau ariannu; ariannol; marchnata; datblygu neu staff; systemau cyfrifiadur a meddalwedd; cynhyrchion neu wasanaethau, yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i allu a gwybodaeth yn ymwneud â pherthnasau gyda phartïon

1 Ebrill 2008.

© HEFCE, 2008. Mae cynnwys y papur hwn wedi'i drwyddedu dan *Creative Commons, Attribution Non Commercial 2.0 Licence England and Wales.*

www.web2rights.org.uk

Mae cynnwys y papur hwn er dibenion gwybodaeth ac arweiniad yn unig. Ni ddylid ei ddehongli fel cyngor cyfreithiol.

eraill a phob cofnod, adroddiad, dogfen, papur ac unrhyw ddeunydd arall a ddeilliodd dan y Cytundeb hwn.

"Consortiwm"	yn golygu'r Partïon i gyd.
"Dyddiad y Daw i Rym"	yn golygu'r dyddiad pan mae pob Parti wedi llofnodi'r Cytundeb hwn.
"HED yn y Tu Blaen"	yn golygu pob patent, dyluniad, hawlfraint (yn cynnwys hawlfraint mewn meddalwedd), hawliau cronfa ddata, ac unrhyw hawliau eiddo deallusol eraill a gyfyd o ganlyniad uniongyrchol i berfformio neu wrth berfformio'r Cytundeb hwn.
"HEFCE"	yn golygu'r Cyngor Addysg Uwch ac Addysg Bellach Lloegr.
"Trwydded HEFCE"	yn golygu'r drwydded rhwng y Sefydliad Arweiniol a HEFCE ar gyfer defnyddio'r Allbynnau sydd yn amod o ran ariannu'r Prosiect.
Hawliau Eiddo Deallusol	yn golygu patentau, nodau masnach, enwau masnach, hawliau dylunio, hawlfreintiau (yn cynnwys hawliau mewn meddalwedd cyfrifiadur a hawliau moesol), hawliau cronfa ddata, hawliau medr a hawliau eiddo deallusol eraill, ym mhob achos boed y rheini wedi'u cofrestru neu beidio, ac yn cynnwys ceisiadau am grant am unrhyw un o'r hyn a nodwyd a phob hawl neu ffurf o amddiffyniad ag effaith gyfartal neu debyg i unrhyw un o'r hyn a nodwyd allai fodoli yn unrhyw le yn y byd.
Prosiect	yn golygu'r [nodwch enw'r prosiect] cydweithredol fel y'i disgrifir yn Atodlen 1.
"Rheolwr Prosiect"	yn golygu'r person a benodwyd gan y Grŵp Llywio i redeg gweithrediad y Prosiect o ddydd i ddydd.
"Personél"	yn golygu unrhyw weithiwr, cyfarwyddwr, asiant, is-gontractwr neu berson arall a ymgysylltir â hwy gan Barti,
"Grŵp Llywio"	yn golygu'r pwyllgor a benodwyd i fod yn gyfrifol am reoli'r Prosiect ble nodir ei aelodau unigol yn Atodlen 2.

1.2 Defnyddir y penawdau a geir yn y Cytundeb Consortiwm hwn er dibenion cyfeirio yn unig ac ni ddylid tybio eu bod yn arwydd o ystyr y cymal y maent yn gysylltiedig ag ef.

1.3 Pan fo'r cyd-destun yn awgrymu hynny, bydd geiriau unigol hefyd yn golygu'r lluosog ac i'r gwrthwyneb a bydd geiriau sydd â chenedl enw gwrywaidd hefyd yn cynnwys y genedl enw benywaidd ac i'r gwrthwyneb.

[Mae'r adran hon yn darparu diffiniadau clir ar gyfer termau allweddol yn y Cytundeb, fel bo'n briodol]

1 Ebrill 2008.

© HEFCE, 2008. Mae cynnwys y papur hwn wedi'i drwyddedu dan *Creative Commons, Attribution Non Commercial 2.0 Licence England and Wales*.

www.web2rights.org.uk

Mae cynnwys y papur hwn er dibenion gwybodaeth ac arweiniad yn unig. Ni ddylid ei ddehongli fel cyngor cyfreithiol.

2. SEFYDLIAD ARWEINIOL

Mae'r Partïon hyn yn cytuno mai **[nodwch enw'r sefydliad]** fydd y sefydliad arweiniol ("Sefydliad Arweiniol") ac yn ei awdurdodi fel eu hasiant i lofnodi cytundebau yn eu henw ac ar eu rhan mewn perthynas â'r Prosiect. Cytuna'r Partïon mai'r Sefydliad Arweiniol fydd yn caniatáu trwydded i HEFCE o'r hawliau a amlinellir yn y Drwydded HEFCE. Bydd y Sefydliad Arweiniol yn agor a chynnal cyfrif banc un pwrpas er budd y Partïon a defnydd y Prosiect. Heb ragfarnu ei awdurdod i gontractio ar ran y Partïon mewn perthynas â'r Prosiect, cytuna'r Sefydliad Arweiniol i gymryd yr holl gamau rhesymol ar bob achlysur i geisio a derbyn caniatâd pob un o'r Partïon eraill o flaen llaw cyn llofnodi cytundebau er budd y Prosiect a'r Partïon eraill.

[Mae'r adran hon yn adnabod y Sefydliad Arweiniol ac yn egluro'i rôl]

3. PWRPAS Y CONSORTIWM

Pwrpas y Consortiwm yw:

- nodi'r trefniadau gwaith rhwng y Partïon wrth gynnal y Prosiect ac amlinellu hawliau a rhwymedigaethau'r Partïon.
- cynnal y Prosiect a chynhyrchu'r Allbynnau fel y'u disgrifiwyd yn Atodlen 1.

[Mae'r adran hon yn nodi pwrpas y Consortiwm, fel y penderfynwyd arno gan bartneriaid y Prosiect a allai olygu mwy na chynnal y Prosiect a ariennir yn unig]

4. DECHRAU'R CYTUNDEB A HYD Y CYTUNDEB

Bydd y Cytundeb hwn yn cychwyn ar y Dyddiad y Daw i Rym a bydd yn parhau tan fydd y Prosiect wedi'i gwblhau ar **[nodwch y Dyddiad]**.

Gellir ymestyn hyd y Cytundeb hwn tu hwnt i **[nodwch y Dyddiad]**, neu ar unrhyw adeg cyn y dyddiad hwnnw, drwy gytundeb ysgrifenedig y Partïon, ar gyfnod neu gyfnodau o'r fath fel yr ystyrir yn briodol.

[Mae'r adran hon yn nodi dyddiad dechrau a hyd y Cytundeb ond hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer parhau'r Cytundeb ar ôl y cyfnod ariannu cyntaf, petai hyn yn angenrheidiol]

5. PRIF AMODAU

Ym mhob achos, hyd nes y bydd y Prosiect wedi'i gwblhau, bydd amodau a osodir ar gyfer y Prosiect gan **[nodwch enw'r Corff Ariannu]** neu ei olynydd yn diystyru unrhyw gytundeb rhwng y Partïon sydd yn ymwneud â'r Prosiect, yn cynnwys unrhyw delerau a gynhwysir yn y Cytundeb hwn.

[Weithiau, efallai y bydd Corff Ariannu, fel rhan o gontract a gaiff ei ariannu, yn gofyn bod prosiect Cytundeb Consortiwm yn cynnwys cymal yn caniatáu i'r Corff Ariannu ymyrryd mewn penderfyniadau a wneir gan bartneriaid y Prosiect]

6. RHEOLI'R PROSIECT

6.1 GRŴP LLYWIO

O fewn tri deg diwrnod ar ôl y Dyddiad y Daw i Rym, bydd y Partïon yn sefydlu Grŵp Llywio fydd yn cynnwys un cynrychiolydd wedi'i awdurdodi'n briodol o bob Parti. Ar ôl hysbysu'r gweddill yn ysgrifenedig, bydd gan bob Parti'r hawl i newid ei gynrychiolydd a/neu benodi dirprwy, er gall ddefnyddio pob ymdrech rhesymol i gadw parhad ei gynrychiolaeth. Amlinellir cyfansoddiad y Grŵp Llywio yn Atodlen 2. Bydd y Grŵp Llywio yn penodi Cadeirydd o bliith ei aelodau. Fe fydd yna Reolwr Prosiect hefyd, a fydd yn Ysgrifennydd i'r Grŵp Llywio.

6.2 CYFRIFOLDEBAU'R GRŴP LLYWIO

6.2.1 Goruchwylio'r Prosiect

Bydd y Grŵp Llywio yn gyfrifol am gyflwyno deilliannau'r prosiect ac i'r perwyl hwn yn parhau i adolygu cynllun y prosiect a'r cynnydd o ran ei ddiwallu.

¹ Ebrill 2008.

© HEFCE, 2008. Mae cynnwys y papur hwn wedi'i drwyddedu dan *Creative Commons, Attribution Non Commercial 2.0 Licence England and Wales*.

www.web2rights.org.uk

Mae cynnwys y papur hwn er dibenion gwybodaeth ac arweiniad yn unig. Ni ddylid ei ddehongli fel cyngor cyfreithiol.

6.2.2 Penodi Rheolwr Prosiect

Bydd y Grŵp Llywio yn gyfrifol am benodi Rheolwr Prosiect. Bydd y Rheolwr Prosiect yn gyfrifol am reoli'r Prosiect o ddydd i ddydd ac yn adrodd i'r Grŵp Llywio.

6.2.3 Rheolaeth Ariannol

Bydd y Grŵp Llywio yn gyfrifol am reolaeth ariannol y Prosiect ac yn rheoli'r Prosiect yn unol â thechnegau rheoli prosiect priodol. Efallai fydd y Grŵp Llywio yn dewis cymryd cyngor gan drydydd parti yn ôl yr angen.

6.2.4 Cyhoeddiadau a Datganiadau i'r Wasg

Bydd y Grŵp Llywio yn penderfynu ar weithdrefnau ar gyfer lledaenu cyhoeddiadau a datganiadau i'r wasg yn ymwneud â'r Prosiect.

6.2.5 Strategaeth Ymelwad Masnachol

Bydd y Grŵp Llywio yn cynnal dau Gyfarfod Arbennig, y cyntaf flwyddyn cyn diwedd y Prosiect, a'r ail ar ddiwedd y Prosiect, fydd â'r dasg yn unig o drafod y posibilrwydd o ymelwad masnachol o Allbynnau'r Prosiect a chreu cynhyrchion yn seiliedig ar yr Allbynnau. Bydd y Grŵp Llywio yn adolygu'r Allbynnau yn y cyfarfodydd hyn, yn trafod y posibilrwydd o ymelwad a'r posibilrwydd o ddatblygu cynhyrchion o'r Allbynnau, a datblygu strategaeth ar gyfer ymelwad a datblygiad o'r fath.

6.2.6 Strategaeth Ymadael

Bydd y Grŵp Llywio yn sefydlu Is-grŵp Cynaliadwyedd i gynllunio ar gyfer datblygu'r **[nodwch fanylion a disgrifiadau o'r Allbynnau]** Allbynnau' yn y dyfodol.

Bydd y Grŵp Llywio yn cynnal dau Gyfarfod Arbennig, y cyntaf flwyddyn cyn diwedd y Prosiect, a'r ail ar ddiwedd y Prosiect, fydd â'r dasg yn unig o ddatblygu strategaeth neu strategaethau addas ar gyfer datblygu'r Allbynnau yn y dyfodol, yn cynnwys chwilio am arian ychwanegol gan ffynonellau priodol.

Petai arian ychwanegol yn cael ei sicrhau ar gyfer datblygu'r Allbynnau yn y dyfodol, bydd y Grŵp Llywio yn gyfrifol am wneud trefniadau ariannol a gweinyddol o'r fath fel bo'r angen i sicrhau parhad effeithiol ac effeithlon y Consortiwm, yn cynnwys unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol o'r Cytundeb Consortiwm hwn, fydd i'w cymeradwyo gan y Partïon.

6.2.7 Rhannu'r Incwm Ymelwad

Bydd y Grŵp Llywio yn penderfynu ar raniad yr incwm a grëir wrth ymelwa o'r Allbynnau. Mae a wnelo rhaniad y refeniw â'r Partïon hynny sydd ar ôl ar ddiwedd y Prosiect. Os fydd Parti yn tynnu nôl neu'n cael ei ddiarddel cyn i'r Prosiect gael ei gwblhau, bydd eu hawl i gyfran o'r incwm sydd yn deillio o ymelwad masnachol yn cael ei bennu gan y Grŵp Llywio ac ystyrir beth oedd cyfanswm cyfran y Parti hwnnw wrth gynnal y Prosiect.

6.3 CYFARFODYDD Y GRŴP LLYWIO

Bydd y Grŵp Llywio yn pennu pa mor aml y cynhelir ei gyfarfodydd, ond bydd yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Gall dau neu fwy o Bartïon alw cyfarfodydd ychwanegol neu fe'u cynhelir ar gais y Rheolwr Prosiect. Bydd cyfarfodydd yn gweithredu dan y rheolau a ganlyn:

6.3.1 Bydd y Grŵp Llywio yn cytuno ar ddyddiad y cyfarfod nesaf ym mhob cyfarfod. Fel arall, yr Ysgrifennydd, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd neu ei enwebai, fydd yn galw cyfarfodydd, ac yn rhoi rhybudd rhesymol dan yr amgylchiadau.

6.3.2 Bydd yr Ysgrifennydd yn cylchredeg rhaglen cyn y cyfarfod.

6.3.3 Bydd gan bob aelod o'r Grŵp Llywio (yn cynnwys yr aelodau cyfetholedig, ond nid yr Ysgrifennydd) un bleidlais, ac eithrio'r Cadeirydd fydd gan bleidlais fwrw. Ni fydd aelod yn gallu pleidleisio ar faterion ynglŷn ag anghydfod gyda'r Consortiwm os mai'r aelod yw testun yr anghydfod.

6.3.4 Y cworwm i gyfarfod fydd pum (5) aelod â hawl pleidleisio.

- 6.3.5 Gyda chytundeb y Cadeirydd, gall aelodau'r Grŵp Llywio enwebu cynrychiolydd i fynychu cyfarfodydd a phleidleisio ar eu rhan.
- 6.3.6 Penderfynir ar bleidleisiau, ac eithrio pleidlais i derfynu aelodaeth Parti yn y Consortiwm, ar sail pleidlais mwyafrif o'r rheiny sydd yn mynychu ac yn gymwys i bleidleisio.

6.4 CYFRIFOLDEBAU AELODAU UNIGOL Y GRŴP LLYWIO

Yn ogystal â chyfrifoldeb cyfunol y Grŵp Llywio, bydd gan aelodau unigol y Grŵp Llywio gyfrifoldebau penodol a gaiff eu pennu gan y Grŵp Llywio o bryd i'w gilydd.

[Mae'r adran hon yn ymdrin â'r fframwaith rheoli ar gyfer y Consortiwm. Yn yr achos hwn, ymdrinnir â'r broses rheoli drwy gyfrwng Grŵp Llywio a Rheolwr Prosiect, ond gallai partneriaid Prosiect ddewis mecanwaith rheoli gwahanol. Yn yr enghraifft hon, mae gan y Grŵp Llywio rôl gyffredinol o oruchwylio cynnydd prosiectau, mae'n penodi'r Rheolwr Prosiect ac yn gyfrifol am reolaeth ariannol y prosiect. Mae'n chwarae rôl arwyddocaol yn datblygu strategaeth y prosiect, yn cynnwys gwneud penderfyniadau ar ledaenu, ymelwad masnachol o'r Allbynnau a dosbarthu refeniw o'r fath ymelwad, a chynllunio ar gyfer diwedd y cyfnod ariannu cychwynnol. Mae'r adran hefyd yn manylu ar drefniadau cyfarfodydd y Grŵp Llywio ac yn nodi y bydd gan aelodau'r Grŵp Llywio gyfrifoldebau cyfunol ac unigol dan y Cytundeb.]

7. ADNODDAU PROSIECT

7.1 DOSBARTHAD

Mae cyfanswm yr arian sydd i'w dalu, yn amodol ar gynnydd yn erbyn cerrig milltir y Prosiect fel y cytunwyd arnynt, fel a ganlyn:

Blwyddyn Ariannol 1 ***[nodwch y Dyddiad]*** - ***[nodwch y Dyddiad]*** ***[nodwch y swm £XXX,XX]***

Blwyddyn Ariannol 2 ***[nodwch y Dyddiad]*** - ***[nodwch y Dyddiad]*** ***nodwch y swm £XXX,XX]***

Blwyddyn Ariannol 3 ***[nodwch y Dyddiad]*** - ***[nodwch y Dyddiad]*** ***nodwch y swm £XXX,XX]***

Blwyddyn Ariannol 4 ***[nodwch y Dyddiad]*** - ***[nodwch y Dyddiad]*** ***nodwch y swm £XXX,XX]***

7.2 DOSBARTHAD

Bydd taliadau i'r consortiwm yn cael eu gwneud i ***[nodwch enw'r Sefydliad Arweiniol]***. Yna, bydd ***[nodwch enw'r Sefydliad Arweiniol]*** yn dosrannu'r gyllideb rhwng y Partïon ar sail y cynlluniau ariannol a gymeradwywyd o dro i dro gan y Grŵp Llywio.

7.3 ANFONEBU/HAWLIADAU

Pan fydd costau a threuliau i'w hawlio (hynny yw, wedi'u cymeradwyo gan y Rheolwr Prosiect neu'r Grŵp Llywio), dylid pasio hawliadau ymlaen i'r Rheolwr Prosiect cyn gynted ag y maent wedi cael eu talu gyda thystiolaeth i gefnogi'r gwariant wedi'i atodi. Bydd angen i'r Rheolwr Prosiect lunio adroddiadau ariannol i'r Grŵp Llywio o dro i dro.

[Mae'r adran hon yn disgrifio beth yw'r adnoddau prosiect a gafwyd gyda'r arian cychwynnol a sut y byddant yn cael eu dosbarthu. Yn yr enghraifft hon, cwblheir y gwaith cynllunio ariannol manwl yn ôl disgrisiwn y Grŵp Llywio, ond yn hytrach, gellir ymdrin ag ef o fewn Cytundeb y Consortiwm ei hun]

8. CYFRIFOLDEBAU'R PARTÏON

PERFFORMIAD

- 8.1 Mae pob Parti yn cwblhau pethau ar ran y Partïon eraill ac yn cyflawni'r tasgau a gafodd eu haseinio iddo gan y Grŵp Llywio ar amser, ynghyd â'r holl rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn.

1 Ebrill 2008.

© HEFCE, 2008. Mae cynnwys y papur hwn wedi'i drwyddedu dan *Creative Commons, Attribution Non Commercial 2.0 Licence England and Wales.*

www.web2rights.org.uk

Mae cynnwys y papur hwn er dibenion gwybodaeth ac arweiniad yn unig. Ni ddylid ei ddehongli fel cyngor cyfreithiol.

- 8.2 O ran y Grŵp Llywio a'r Rheolwr Prosiect, bydd pob Parti drwy hyn yn cyflenwi ar unwaith yr holl wybodaeth neu ddogfennau y mae'r Rheolwr Prosiect a'r Grŵp Llywio eu hangen i gyflawni'u rhwymedigaethau sydd yn destun y Cytundeb hwn.
- 8.3 Gyda'i gilydd, bydd pob Parti yn:
- 8.3.1 hysbysu pob un o'r Partion eraill pan fydd Parti yn dod yn ymwybodol o oedi arwyddocaol mewn perfformiad;
 - 8.3.2 hysbysu Partion eraill o gyfathrebiadau perthnasol y mae'n eu derbyn gan drydydd parti mewn perthynas â'r Prosiect.
- 8.4 Bydd pob Parti yn gwneud pob ymdrech i sicrhau cywirdeb unrhyw wybodaeth neu ddeunyddiau a gyflenwir ganddo trwy hyn ac yn cywiro unrhyw wallau sydd ynddynt ar unwaith ar ôl cael eu hysbysu amdanynt.
- 8.5 Mae pob Parti yn cytuno i beidio â chyhoeddi unrhyw ddatganiadau i'r wasg neu ddeunyddiau cyhoeddusrwydd eraill o'r fath sydd yn ymwneud â gwaith y Consortiwm heb gael caniatâd gan y Partion eraill yn gyntaf.

GWARANTAU AC YMRWYMIADAU

- 8.6 Dan ei berthynas gytundebol gyda phob un o'i Bersonél, mae pob Parti yn gwarantu y bydd unrhyw eiddo deallusol a gyfyd o neu sydd yn berthnasol â'r gwaith a wneir gan y Personél i'r Parti yn berchen i'r Parti ac na fydd gan Bersonél unrhyw hawl, deitl na buddiant, boed yn gyfreithiol neu'n llesol, mewn unrhyw fath o hawliau eiddo deallusol. Gall Parti, os gwneir cais gan y Grŵp Llywio, gynhyrchu tystiolaeth ysgrifenedig o hyn i'r Grŵp Llywio wedi'i lofnodi gan ei Bersonél.
- Mae pob Parti yn cydnabod ei fod yn atebol am ganlyniadau unrhyw fethiant ar ei ran neu ar ran ei Bersonél i gwblhau'r tasgau a'r pecynnau a gwaith a gaiff eu haseinio iddo dan y Cytundeb hwn ac yn unol â hyn dylai:
- 8.6.1 gaffael a dal ei yswiriant ei hun, gydag yswirwyr ag iddynt enw da, i sicrhau yswiriant am ei atebolrwydd ei hun a'r rhai ar ran ei Bersonél;
 - 8.6.2 cadw cofnodion gwir a chywir o'r holl bethau a wneir gan ei Bersonél mewn perthynas â'r tasgau a'r pecynnau gwaith a gaiff eu haseinio iddo dan y Cytundeb hwn
 - 8.6.3 cydymffurfio a chynorthwyo'r Consortiwm, y Grŵp Llywio a'r Rheolwr Prosiect i gydymffurfio â'r holl statudau, cyfreithiau, rheoliadau a chodau ymarfer perthnasol sydd yn ymwneud â'i dasgau a pheynnau gwaith o dro i dro sydd mewn grym;
 - 8.6.4 cydymffurfio â holl argymhellion a gofynion ei yswirwyr; a
 - 8.6.5 indemnio, parhau i indemnio a chadw Partion eraill wedi'u hindemnio rhag ac yn erbyn pob cost (yn cynnwys costau gorfodaeth), treuliau, dyledion, anafiadau, colledion uniongyrchol, anuniongyrchol neu o ganlyniad (ble mae termau'n cynnwys heb gyfyngiad, colled economaidd pur, colli elw, colli busnes, disbyddu ewyllys da ac yn debyg i golled yn ymwneud â'r tri), iawndal, hawliadau, gorchmynion, costau achosion neu gyfreithiol (ar sail indemniad llawn) a dyfarniadau a ddaw i law neu a ddiodefir o ganlyniad i dorri'r Cytundeb hwn neu weithrediadau neu anwaith esgeulus neu gamymddwyn bwriadol gan y Parti a/neu ei Bersonél yn cynnwys rhai heb gyfyngiadau ac unrhyw atebolrwydd o ganlyniad sydd gan y Consortiwm i'r sawl sydd yn ariannu neu unrhyw drydydd parti.
- 8.7 Bydd pob parti yn gyfrifol am ddarparu'r holl gyfleusterau a gwasanaethau priodol yn ôl yr angen wrth berfformio tasgau a pheynnau gwaith yn briodol, fydd ar gost y Parti yn gyfan gwbl.
- 8.8 Bydd pob Parti yn cytuno ac yn gwneud gwaith ar ei gost ei hun i sicrhau bod Personél ar gael i fynychu cyfarfodydd y gweithgor gyda'r Rheolwr Prosiect i adolygu cynnydd ar amseroedd ac mewn lleoliadau a gaiff eu nodi'n rhesymol gan y Grŵp Llywio.

8.9 Bydd pob Parti yn darparu'r hyn a ganlyn i'r Grŵp Llywio:

8.9.1 cyfriflenni chwarterol ar y gwariant a wnaed mewn perthynas â darparu'r tasgau a'r pecynnau gwaith a gaiff eu haseinio iddo, ynghyd â chopïau o daflenni amser staff, anfonebau a dogfennaeth berthnasol arall er dibenion archwilio;

8.9.2a datganiad yn cadarnhau bod y gwariant a wnaed yn unol â'r Cytundeb Ariannu; a

8.9.3a cyfriflen derfynol o wariant o fewn 4 wythnos i derfynu'r Cytundeb.

[Mae'r adran hon yn amlinellu cyfrifoldebau partneriaid y Prosiect - gall y rhain amrywio yn unol â natur a sgôp y Prosiect. Mae'n cynnwys y gwarantau a'r rhwymedigaethau rhwng Partneriaid y Prosiect ar faterion yn cynnwys eiddo deallusol, yswiriant, cadw cofnodion, a chydymffurfiad cyfreithiol yn ogystal â darparu indemniad i amddiffyn partneriaid y Prosiect rhag iawndal ariannol a iawndal arall a gyfyd o weithredoedd neu anwaith ar ran unrhyw un o bartneriaid y Prosiect. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer Gweithgor Prosiect heb aelodaeth benodedig i'w galw, ar ddisgresiwn y Grŵp Llywio, i adolygu cynnydd. Yn olaf, mae'n ymdrin â materion atebolrwydd ariannol partneriaid y Prosiect, a chadw cofnodion.]

9. YCHWANEGU PARTÏON I'R CONSORTIWM

Gellir gwahodd sefydliadau i ymuno â'r Consortiwm drwy benderfyniad unfrydol y Grŵp Llywio yn unig ac ar yr amod fod y sefydliad newydd yn dod yn rhan o'r Cytundeb hwn.

[Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefydliadau trydydd parti i ymuno â'r Consortiwm. Gall yr amodau ar gyfer ymuno amrywio yn unol â natur a sgôp y Prosiect. Yn yr achos hwn, er mwyn i drydydd parti ymuno â'r Consortiwm, rhaid iddynt gytuno â'r un telerau ac amodau â'r Partïon gwreiddiol. Felly, ni fyddai cytundeb i drydydd parti ymuno â'r Consortiwm na fyddai'n diwallu'r meini prawf yn ddilys, oni bai bod y Partïon wedi cytuno i ddiwygio'r Cytundeb Consortiwm hwn yn briodol.]

10. TYNNU NEU DDILEU PARTÏON O'R CONSORTIWM

10.1 TYNNU PARTÏON

Heb niweidio unrhyw hawliau neu gywiriadau eraill sydd yn agored i'r Consortiwm, gall y Grŵp Llywio, ar ôl pleidlais dau draean o fwyafrif y Grŵp Llywio llawn o blaid terfynu, a thrwy rybudd ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Parti, derfynu aelodaeth Parti yn y Consortiwm, os yw'r Parti:

10.1.1 wedi gweithredu'n groes i unrhyw delerau'r Cytundeb hwn a phetai modd cywiro'r tor-amod hwnnw, bod y Parti wedi methu cywiro tor-amod o'r fath o fewn 30 diwrnod ar ôl derbyn rhybudd ysgrifenedig yn manylu ar y tor-amod ac yn gofyn iddo gael ei gywiro; neu

10.1.2 ym marn mwyafrif y Grŵp Llywio, yn anghymwys, yn cyflawni unrhyw weithred o gamymddwyn difrifol neu barhaus a/neu'n esgeuluso neu'n peidio â chwblhau unrhyw un o'i ddyletswyddau neu rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn; neu

10.1.3 yn methu neu'n gwrthod, ar ôl derbyn rhybudd ysgrifenedig gan y Grŵp Llywio, cyflawni'r dyletswyddau neu'r rhwymedigaethau sydd yn ofynnol yn rhesymol a phriodol ohono dan y Cytundeb hwn; neu

10.1.4 yn bod yn gwmni, yn galw cyfarfod gyda'i gredydwyd, yn gwneud cynnig am drefniant gwirfoddol, yn dod yn destun unrhyw drefniant gwirfoddol, ddim yn gallu talu'i ddyledion o fewn ystyr Deddf Ansolfedd 1986 a.123, yn penodi derbynnydd, rheolwr neu dderbynnydd gweinyddol ar gyfer unrhyw un o'i asedau, yr holl fusnes neu incwm, yn pasio penderfyniad i ddirwyn i ben yn wirfoddol (ac eithrio er dibenion ail-greu neu gyfuno), yn penodi Datodwr dros dro, yn gwneud cynnig am gynllun trefniant dan Ddeddf Cwmnïau 1985 a.425, yn penodi gweinyddwr o'i herwydd neu'n destun cais am wneud gwaith gweinyddol mewn unrhyw lys neu hysbysiad i benodi gweinyddwr a gaiff ei ffeilio mewn unrhyw lys neu hysbysiad o fwriad i benodi gweinyddwr a roddir gan unrhyw berson neu'n destun hysbysiad i'w ddiwyddu oddi ar y gofrestr yn Nhŷ'r Cwmnïau;

10.1.5 yn rhoi'r gorau i weithredu ei fusnes neu ei weithrediadau;

10.1.6 yn rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol i'r Grŵp Llywio o ran ei allu i gwblhau ei ddyletswyddau neu rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn; neu

10.1.7 wedi gwneud unrhyw beth sydd yn dwyn anfri neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo ddwyn anfri i'r Partïon neu'r Prosiect neu'r Ariannwr neu fel arall niweidio contractwyr, gweithwyr, asiantau, cwsmeriaid eraill, cysylltiadau busnes eraill neu'r cyhoedd yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i, gyflawni gweithred dwyllodrus neu anonest, p'un a yw'n gysylltiedig â'r Prosiect neu ddim.

10.2 DILEU PARTÏON

Dim ond gyda chytundeb unfrydol gweddill y Partïon y gellir dileu Parti.

10.3 AMODAU O GANLYNIAD I DYNNU NEU DDILEU

Os oes Parti'n cael ei ddileu neu'i ddiarddel, bydd y Consortiwm yn atebol am gwrdd ag unrhyw gostau am unrhyw waith a wnaed tan yr amser y bydd Parti yn peidio â bod yn aelod o'r Consortiwm yn unig. Bydd balans unrhyw daliadau a wnaed i'r Parti yn cael eu dychwelyd i gynrychiolydd enwebedig **[nodwch enw'r Sefydliad Arweiniol]** o fewn 30 diwrnod o gael ei ddileu neu'i ddiarddel. Ym mhob achos, mae gan y Consortiwm yr hawl i gael mynediad i unrhyw waith a gynhyrchwyd yng nghyfnod gwaith y Parti fel rhan o'r Consortiwm.

[Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer tynnu neu ddileu Partneriaid y Prosiect o'r Consortiwm. Yn achos tynnu partner o'r Consortiwm, mae'n darparu cyfres glir o seiliau fyddai'n cyfiawnhau ei dynnu a gweithdrefn benodol y mae'n rhaid ei dilyn. Mae'r adran hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu deilliannau ariannol dileu neu ddiarddel, ac yn sicrhau bod gweddill y Partneriaid Prosiect yn dal i allu cael mynediad i'r gwaith a wnaed gan bartner wedi'i ddiarddel neu'i ddileu. Dylid darllen hyn ar y cyd â'r darpariaethau ar gyfer Eiddo Deallusol isod]

11. RHEOLI DATA

11.1 CASGLU DATA

Dros gyfnod y Prosiect, mae pob Parti yn ymwneud â'r gwaith o gynhyrchu a chasglu data ar ffurf **[nodwch ddisgrifiad]**. Rhaid anfon y data at y Rheolwr Prosiect a'i gadw mewn archif yn **[nodwch enw'r Sefydliad/Partner y Prosiect]** ("Archif y Prosiect"). Mae pob Parti yn cytuno i sicrhau bod pob data a gyflwynir i'r Rheolwr Prosiect yn cael eu cyflwyno gyda dogfennaeth yn manylu ar darddiad y data, ynghyd ag unrhyw ganiatâd angenrheidiol.

11.2 CYNNAL DATA

Mae **[nodwch enw'r Sefydliad/Partner y Prosiect]** drwy hyn yn cymryd cyfrifoldeb i gynnal Archif y Prosiect am hyd y Prosiect ac am gyfnod o (3) blynedd o leiaf ar ôl diwedd y Prosiect. Gellir ymestyn y cyfnod hwn os yw'r Grŵp Llywio'n penderfynu ar hynny.

11.3 DIOGELWCH DATA

Fel aelod o'r Consortiwm, bydd pob Parti yn prosesu data personol er dibenion **[nodwch enw'r Prosiect]**. Dylai pob Parti fod yn llofnodwr i Gytundeb Rheolwr Data **[nodwch enw'r Prosiect]** a rhaid iddo lofnodi Cytundeb Prosesu Data gyda **[nodwch enw'r Sefydliad/Partner y Prosiect]**, cyn prosesu data personol er dibenion y Prosiect.

[Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheoli data o fewn y Prosiect, o ran archifo a chadw data gweinyddol y prosiect ac allbynnau'r prosiect. Gall hyn fod yn hynod bwysig o safbwynt y corff Ariannu, ond hefyd o ran rheoli'r prosiect yn barhaus a chynllunio strategol yn y dyfodol. Efallai bydd yr adran ar ddiogelu data yn angenrheidiol yn dibynnu ar natur a sgôp y Prosiect. Mae'n cysylltu'r Cytundeb Consortiwm â chasgliad pellach o Gytundebau DD penodol]

12. CYFRINACHEDD

12.1 Bydd pob Parti drwy hyn yn addo i'r Partïon eraill y bydd yn sicrhau bod ei weithwyr, asiantau a'i isgontractwyr yn:

12.1.1 Cadw pob gwybodaeth ("yr Wybodaeth") o natur gyfrinachol (p'un a yw'n ysgrifenedig neu ar lafar) ynglŷn â'r Cytundeb hwn a busnes Parti arall y mae wedi'i gael neu'i dderbyn o ganlyniad i drafodaethau yn arwain at ymrwymo i'r cytundeb hwn neu gyflawni'r cytundeb hwn yn gyfrinachol;

12.1.2 Ddim yn datgelu'r Wybodaeth i gyd neu'n rhannol i unrhyw berson arall ar wahân i'w weithwyr, asiantau a'r isgontractwyr sydd yn ymwneud â gweithredu neu werthuso'r Prosiect sydd angen gwybod yr un peth er mwyn cwblhau'u dyletswyddau, heb dderbyn caniatâd ysgrifenedig y Parti perthnasol arall yn gyntaf;

12.1.3 Yn defnyddio'r Wybodaeth mewn cysylltiad â gweithredu'r Prosiect yn unig ac nid fel arall er ei fudd ei hun neu fudd unrhyw drydydd parti.

12.1.4 Ni fydd y darpariaethau uchod yn berthnasol i'r Wybodaeth gyfan neu unrhyw ran ohoni i'r graddau fel y gellir dangos bod y Parti sydd yn derbyn yn:

12.1.4. 1. Hysbys i'r Parti sydd yn derbyn cyn dyddiad y Cytundeb hwn a heb ei gael yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan unrhyw barti arall; neu

12.1.5.1 Wedi'i gael gan drydydd parti sydd yn meddu'n gyfreithiol ar y fath Wybodaeth na chafwyd wrth dorri dyletswydd cyfrinachedd sydd yn ddyledus i unrhyw barti gan unrhyw berson; neu

12.1.6.1 Yn gyhoeddus yn y ffurf y'i meddir gan unrhyw barti arall ac eithrio gwybodaeth o ganlyniad i dorri dyletswydd cyfrinachedd sydd yn ddyledus i barti arall o'r fath gan unrhyw berson; neu

12.1.7.1 Y mae'n ofyn i'w datgelu drwy broses gyfreithiol, y gyfraith neu awdurdod rheolaethol.

12.2 Bydd pob Parti drwy hyn yn addo i'r Partïon eraill y bydd yn sicrhau bod pob gweithiwr, asiant ac is-contractwr yn ymwybodol o gyfrinachedd yr Wybodaeth a darpariaethau'r cymal hwn a heb ragfarnu cyffredinolrwydd yr hyn a ganlyn i sicrhau cydymffurfiad gan weithwyr, asiantau ac isgontractwyr o'r fath gyda darpariaethau'r cymal hwn.

[Mae hwn yn gymal cyfrinachedd safonol. Os oes angen sicrhau bod gwybodaeth o natur gyfrinachol ar gael rhwng partneriaid y Prosiect, mae'n bwysig bod y partner sydd yn ei darparu yn ei gwneud hi'n hollol glir bod angen ei hystyried yn gyfrinachol, a bod y partneriaid Prosiect eraill yn cymryd yr holl gamau angenrheidiol i sicrhau bod cyfrinachedd yn cael ei barchu.]

13. EIDDO DEALLUSOL

13.1 GWARANTAU HED

Dylai pob Parti dderbyn yr aseiniadau angenrheidiol o Hawliau Eiddo Deallusol neu drwyddedau gan yr holl staff, asiantau neu isgontractwyr sydd yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu a chynhyrchu'r Allbynnau ar ei ran. Mae pob Parti yn gwarantu i'r Partïon eraill mai ef yw perchennog yr Hawliau Eiddo Deallusol yn yr Allbynnau, neu ei fod wedi'i drwyddedu'n briodol i ddefnyddio'r Allbynnau, ac nad yw defnydd o gynnwys yr Allbynnau fel y'u hystyriar yn y Cytundeb hwn yn torri unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol neu hawliau perchnogol neu hawliau unrhyw berson naturiol neu gyfreithiol arall.

13.2 HED CEFNDIR

Bydd yr holl HED Cefndir a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn yn dal yn eiddo i'r Parti sydd yn cyflwyno'r un peth neu unrhyw drydydd parti arall. Bydd pob Parti'n cymryd cyfrifoldeb i sicrhau eu bod wedi cael pob caniatâd angenrheidiol i ddefnyddio HED Cefndir.

13.3 HAWLIAU YN Y TU BLAEN

Bydd pob HED yn y Tu Blaen a gyfyd o'r Cytundeb hwn yn eiddo i'r Parti sydd yn cynhyrchu'r un fath.

13.4 CYWIRDEB

Bydd pob Parti yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau cywirdeb unrhyw wybodaeth neu ddeunyddiau a gyflenwir ganddo i'r Partïon eraill dan y cymal hwn a byddant yn cywiro unrhyw wallau sydd ynddynt ar unwaith ar ôl cael eu hysbysu amdanynt. Ni fydd y Parti sydd yn cyfrannu yn darparu unrhyw warant i'r Partïon sydd yn derbyn o ran gwybodaeth a deunyddiau, a bydd y Partïon sydd yn derbyn yn gwbl gyfrifol am eu defnydd o'r fath wybodaeth a deunyddiau.

13.5 HAWLIAU MYNEDIAD

13.5.1 Bydd pob Parti drwy hyn yn rhoi trwydded sydd yn rhydd o unrhyw freindal, yn anghyfyngedig, byd-eang, aseiniadwy a pharhaol i (ac i drydydd parti) ddefnyddio'i HED Cefndir a HED yn y Tu Blaen er dibenion cwblhau eu rhan hwy o'r Prosiect.

13.5.2 Mae pob Parti drwy hyn yn indemnio'r Partïon eraill rhag unrhyw ymrwymïadau, colled, hawliadau neu dreuliau a gaiff eu cyflwyno yn eu herbyn neu a achoswyd o ganlyniad i'w ddefnydd a/neu werthu cynnyrch yn cynnwys HED Cefndir a/neu HED yn y Tu Blaen y Partïon eraill.

13.5.3 Ar ôl cwblhau'r Prosiect, bydd pob Parti yn parhau i fod â'r hawl i ddefnyddio'u HED yn y Tu Blaen am ddim er dibenion defnyddio'r deunyddiau wrth ymgymryd â'u gweithgareddau addysgol arferol.

13.5.4 Ar ôl cwblhau'r Prosiect, bydd y Consortïwm yn darparu copi o'r Allbynnau am ddim ar gais, i unrhyw sefydliad addysgol (fel y'u diffinnir gan Ddeddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992 a.65 (5)) yn amodol ar drwydded sydd yn rhydd o unrhyw freindal, yn anghyfyngedig a phriodol i ddefnyddio'r Allbynnau er dibenion anfasnachol.

13.5.5 Bydd defnydd o HED Cefndir a/neu HED yn y Tu Blaen gan drydydd parti yn hytrach na Partïon eraill a chan sefydliadau addysgol (fel y'u diffinnir gan Ddeddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992 a.65(5)) er dibenion masnachol yn ôl disgrisiwn y Partïon sydd yn berchen ar HED Cefndir a/neu HED yn y Tu Blaen o'r fath.

13.5.6 Bydd pob Parti drwy hyn yn rhoi trwydded sydd yn rhydd o unrhyw freindal, yn anghyfyngedig, byd-eang, diwrthdro, aseiniadwy a pharhaol i'r Sefydliad Arweiniol ddefnyddio holl HED Cefndir a HED yn y Tu Blaen y Partïon er dibenion cyflawni ei rwymedigaethau dan Gymal 2 ac er mwyn trwyddedu'r HEFCE gyda'r hawliau a amlinellir yn y Drwydded HEFCE.

13.5.7 Mae pob Parti drwy hyn yn indemnio'r HEFCE rhag unrhyw ymrwymïadau, colled, hawliadau neu dreuliau a gaiff eu cyflwyno yn ei erbyn neu a achoswyd o ganlyniad i'w ddefnydd o'r Allbynnau yn unol â'r Drwydded HEFCE.

13.6 CYTUNDEBAU ARIANNU

Bydd darpariaethau'r cymal hwn bob amser yn amodol i unrhyw ddarpariaethau sydd yn gwrthdaro yn y llythyr ariannu, ac yn achos unrhyw wrthdaro, bydd cynnwys y llythyr ariannu yn cael blaenoriaeth.

[Mae'r adran hon yn ymdrin â'r mater o eiddo deallusol. Bydd adrannau ar eiddo deallusol mewn Cytundeb Consortïwm yn hynod bwysig o ran datblygiad prosiect ac unrhyw ymelwad o'r Allbynnau drwy'r prosiect yn y dyfodol, ac mae'n hanfodol bod Partneriaid y Prosiect yn glir ynglŷn â goblygiadau eu hawliau a'u rhwymedigaethau priodol fel yr amlinellwyd ynddo.]

14 TERFYNU

14.1 TERFYNU CYLLID

Bydd y Cytundeb hwn yn terfynu ar unwaith heb unrhyw atebolrwydd rhwng y Partïon petai'r Cytundeb Ariannu yn terfynu am ba bynnag reswm o gwbl, oni bai bod y Partïon, drwy gyfrwng cytundeb ysgrifenedig, yn penderfynu ei barhau.

14.2 TERFYNU DRWY GYTUNDEB AR Y CYD

Gellir terfynu'r Cytundeb hwn ar unrhyw adeg drwy gytundeb ysgrifenedig unfrydol y Partïon.

14.3 HAWLIAU PARTÏON

Bydd y Cytundeb hwn yn cael ei derfynu, waeth sut fo'n codi, heb ragfarnu'r hawliau, dyletswyddau ac atebolrwydd y mae'r Partïon wedi'u cronni cyn y terfyniad. Bydd y darpariaethau yn y Cytundeb hwn sydd yn cael eu gweithredu'n ffurfiol neu'n ymhyg ar ôl y terfyniad yn parhau i allu cael eu gorfodi er gwaethaf y terfyniad.

[Mae'r adran hon yn amlinellu'r amodau y gellir eu defnyddio i derfynu'r Cytundeb, ac eithrio os yw'n cael ei gwblhau fel yr amlinellir yng nghymal 4 'Dechrau a Hyd y Cytundeb', a goblygiadau'r Terfyniad i bartneriaid y Prosiect.]

15 CYFRAITH LYWODRAETHU A DATRYS ANGHYDFOD

- 15.1 Bydd y Cytundeb hwn yn cael ei lywodraethu gan gyfraith Lloegr ac fe'i dehonglir yn unol â hynny a bydd y partïon yn cytuno'n derfynol y bydd unrhyw anghydfod a gyfyd o neu sydd mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn yn amodol i ac o fewn awdurdodaeth llysoedd Lloegr.
- 15.2 Mae'r Partïon yn cytuno i wneud pob ymdrech bosib i ddatrys anghydfod mewn ffordd anffurfiol. Pan fydd Partïon yn cytuno y byddai'n well datrys anghydfod a gyfyd o neu mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn yn amodol i ac o fewn awdurdodaeth llysoedd Lloegr gyda phenderfyniad arbenigwr, byddant yn cytuno ar natur yr arbenigwr gofynnol ac yn penodi arbenigwr addas drwy gytundeb ar y cyd.
- 15.3 Bydd unrhyw berson ble cyfeirir ato dan Gymal 15.2 yn gweithredu fel arbenigwr ac nid fel canolwr a bydd ei benderfyniad (a fydd yn cael ei gyflwyno ganddo'n ysgrifenedig ac yn nodi'r rhesymau am ei benderfyniad) yn derfynol ac yn rhwymo'r partïon ac eithrio mewn achosion o wall neu dwyll amlwg.
- 15.4 Bydd pob Parti yn darparu gwybodaeth a dogfennaeth i'r arbenigwr fel y bydd yn rhesymol ofynnol ganddo er dibenion ei benderfyniad.
- 15.5 Bydd costau'r arbenigwr yn cael eu talu gan y partïon yn ôl y cyfrannau a bennir yn deg a rhesymol gan yr arbenigwr yn yr holl amgylchiadau neu, gan y partïon mewn cyfrannau cyfartal os na chant eu pennu gan yr arbenigwr.

[Mae'r adran hon yn darparu mecanwaith ar gyfer datrys anghydfod rhwng y partneriaid Prosiect na ellir eu datrys o fewn y Consortiwm (h.y. gan y Grŵp Llywio yn yr achos hwn). Mae'r enghraifft hon yn rhagweld datrystiad anghydfod rhwymedig syml, ond gellir dewis o amrediad eang o opsiynau amgen ar gyfer y rhai sydd yn llunio Cytundebau Consortiwm, yn cynnwys prosesau cyflafareddu mwy ffurfiol. Mae'n bwysig ystyried yn ofalus pa fodel datrys anghydfod sydd yn gweddu orau i drefniadau prosiect penodol. Mae'r adran hefyd yn pennu cyfraith pa awdurdodaeth a ddefnyddir pan fydd yna anghydfod am y Cytundeb neu'n codi ohono. Mae hefyd yn nodi llysoedd pa wledydd a ddylai gael awdurdodaeth i wrando ar unrhyw achos a gyfyd o'r Cytundeb.]

16 DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

16.1 Y CYTUNDEB EI HUN

Yn amodol ar Gymal 5, mae'r Cytundeb hwn yn cynnwys yr holl delerau y mae'r Partïon wedi cytuno arnynt mewn perthynas â thestun y Cytundeb hwn, ac mae'n disodli unrhyw

1 Ebrill 2008.

© HEFCE, 2008. Mae cynnwys y papur hwn wedi'i drwyddedu dan *Creative Commons, Attribution Non Commercial 2.0 Licence England and Wales.*

www.web2rights.org.uk

Mae cynnwys y papur hwn er dibenion gwybodaeth ac arweiniad yn unig. Ni ddylid ei ddehongli fel cyngor cyfreithiol.

gytundebau, sylwadau neu ddealltwriaethau blaenorol, ysgrifenedig neu lafar, rhwng y Partïon ynghylch y testun dan sylw.

Nid yw'r un Parti yn y Cytundeb hwn wedi'i gymell i ymrwymo i'r Cytundeb hwn drwy ddatganiad neu addewid nad ydynt yn eu cynnwys, ond ni fydd y cymal hwn yn eithrio fel arall unrhyw atebolrwydd fyddai gan un parti at y llall mewn perthynas ag unrhyw ddatganiad a wnaed drwy dwyll gan y parti hwnnw.

16.2 ATODLENNI

Bydd gan Atodlenni'r un grym ac effaith fel pe baent wedi'u nodi'n ffurfiol yng nghorff y Cytundeb hwn a bydd unrhyw gyfeiriad at y Cytundeb hwn yn cynnwys yr Atodlenni.

16.3 ILDIAD

Ni fydd unrhyw fethiant neu ohiriad gan unrhyw Barti i gyflawni unrhyw hawl, pŵer neu gywiriad yn golygu ei fod yn eu hildio, ac ni fydd eu gweithredu'n rhannol yn atal unrhyw weithredu pellach ar y rhain neu ryw hawl, pŵer neu gywiriad arall.

16.4 TORADWYEDD

Os canfyddir gan unrhyw lys, tribiwnlys neu gorff gweinyddol o awdurdodaeth cymwys bod unrhyw gymal neu ran o'r Cytundeb hwn yn anghyfreithlon, annilys neu ddim yn bosib ei orfodi, yna bydd y ddarpariaeth honno, i'r graddau gofynnol, yn cael ei thorri o'r Cytundeb hwn a bydd yn aneffeithiol hebddi oni bai bod modd diwygio unrhyw gymal neu ran arall o'r Cytundeb hwn, ac ni fydd hyn yn effeithio ar unrhyw ddarpariaethau eraill y Cytundeb hwn a fydd yn dal â grym ac effaith llawn.

16.5 FORCE MAJEURE

Ni phennir bod unrhyw Barti yn torri'r Cytundeb hwn, nac fel arall yn atebol i barti arall am fethiant neu oedi wrth gyflawni'r Cytundeb hwn os mai digwyddiad tu hwnt i'w reolaeth resymol sydd ar fai heblaw am streic, cloi allan neu anghydfod diwydiannol ond yn cynnwys, heb gyfyngiadau, gweithred gan Dduw, rhyfel, tân, llifogydd, tystestl ac argyfyngau cenedlaethol a bydd hawl gan Barti sydd wedi oedi estyniad rhesymol o amser ar gyfer cyflawni ymrwymadau o'r fath.

16.6 ASEINIAD

Oni bai am yr hyn a ganiatwyd dan y Cytundeb hwn, ni all unrhyw barti is-gontractio neu aseinio'r Cytundeb hwn nac unrhyw hawliau a rhwymedigaethau sydd oddi tano heb gael caniatâd ysgrifenedig y partïon eraill yn gyntaf. Mewn unrhyw aseiniad a gafodd ei ganiatáu, dylai'r aseiniwr gaffael a sicrhau bod yr aseinau yn derbyn pob hawl a rhwymedigaeth yr aseiniwr dan y Cytundeb hwn a chytuno i gael eu rhwymo i holl delerau'r Cytundeb hwn.

16.7 AMRYWIAD

Gellir addasu'r Cytundeb hwn ar unrhyw adeg drwy gytundeb ysgrifenedig y Partïon. Ni fydd unrhyw amrywiad i'r Cytundeb hwn mewn grym oni bai ei fod yn ysgrifenedig ac wedi cael ei arwyddo gan swyddog awdurdodedig priodol gan bob Parti ysgrifenedig. Bydd unrhyw amrywiad yn ystod cyfnod y Prosiect yn amodol ar gymeradwyaeth y sawl sydd yn Ariannu.

16.8 HYSBYSIAD

Bydd unrhyw rybudd mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn yn un ysgrifenedig a gellir ei ddanfôn â llaw, drwy bost dosbarth cyntaf a dalwyd yn barod, post Danfon Arbennig neu neges ffacs (ond nid dros e-bost), gyda chyfeiriad y derbynnydd yn ei swyddfa gofrestredig neu gyda chyfeiriad neu rif ffacs yn ôl y galw (neu gyfeiriad neu rif ffacs arall a gaiff ei hysbysu'n ysgrifenedig o bryd i'w gilydd).

Tybir bod yr hysbysiad wedi'i gyflwyno'n briodol os:

- danfonwyd ef â llaw, a'i gadawyd yn y cyfeiriad priodol i'w gyflwyno;

- rhoddwyd neu os gwnaed ef drwy bost dosbarth cyntaf a dalwyd yn barod neu bost Danfon Arbennig, 48 awr ar ôl iddo gael ei bostio neu 14 diwrnod ar ôl iddo gael ei bostio drwy Airmail (ac eithrio dyddiau nad ydynt yn Ddiwrnodau Busnes);
- rhoddwyd neu os gwnaed ef drwy neges ffacs, ar adeg ei drosglwyddo, cyn belled yr anfonir copi'n cadarnhau iddo gael ei anfon drwy bost dosbarth cyntaf a dalwyd yn barod at y parti arall o fewn 24 awr ar ôl cael ei drosglwyddo;

cyn belled ag yn achos danfon â llaw neu drosglwyddo drwy neges ffacs, y caiff ei ddanfon neu ei drosglwyddo naill ai ar ôl 4.00pm ar Ddiwrnod Busnes, neu ar ddiwrnod nad yw'n Ddiwrnod Busnes, tybir bod y rhybudd/gorchymyn wedi'i gyflwyno am 9.00am ar y Diwrnod Busnes nesaf (gyda'r amser yn golygu amser lleol cyfeiriad y derbynnydd).

[Mae'r adran hon yn cynnwys darpariaethau cyffredinol yn ymwneud â gweithredu'r Cytundeb Consortiwm. Er enghraifft, mae cymal 16.4 yn darparu nad yw methiant un rhan o'r Cytundeb yn annilysu'r Cytundeb cyfan, mae cymal 16.7 yn caniatáu i bartneriaid y Prosiect ddiwygio'r Cytundeb ond dan amodau penodol yn unig, ac mae cymal 16.8 yn ymdrin ag ym mha ffurf y dylai cyfathrebiadau ynghylch y Cytundeb fod (h.y. nid negeseuon prosiect o ddydd i ddydd cyffredinol ond negeseuon yn ymwneud yn benodol â'r Cytundeb), a phryd yr ystyrir y bydd cyfathrebiadau o'r fath wedi cael eu derbyn.]

16.9 HEFCE

Bwriedir gan y partion i HEFCE gael yr hawl i orfodi Cymal 13.5 y Cytundeb hwn yn unol â Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999.

ATODLEN 1 - Prosiect

ATODLEN 2 - Cyfansoddiad y Grŵp Llywio [Rhestr]